



**Coleg Gwent – Strategaeth Ddwylieithog:  
2016-2019**

**Coleg Gwent - Bilingual Strategy:  
2016-2019**

<b>Dyddiad Cwblhau'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb:</b>	Y
<b>Wedi'i gymeradwyo gan:</b>	CMT
<b>Dyddiad Cymeradwyo:</b>	30 Ionawr 2017
<b>Awdur:</b>	Pennaeth Dwyieithrwydd a Dysgu Cymunedol
<b>Dyddiad Adolygu:</b>	Ionawr 2020

<b>Cyhoeddwyd ar:</b>	<b>Gwefan (✓)</b>	<b>Mewnryd (✓)</b>	<b>Porth Dysgwyr (✓)</b>
	✓	✓	

<b>Date Equality Impact Assessment Completed:</b>	Y
<b>Approved By:</b>	CMT
<b>Date Approved:</b>	30 January 2017
<b>Author:</b>	Head of Bilingualism and Community Learning
<b>Review Date:</b>	January 2020

<b>Published on:</b>	<b>Website (✓)</b>	<b>Intranet (✓)</b>	<b>Learner Portal (✓)</b>
	✓	✓	

Ar gael mewn print bras a fformatau eraill ar gais  
Available in large font and other formats on request

Mae'n bosibl nad hwn yw'r copi diweddaraf os yw wedi'i argraffu  
This copy may be out of date if printed

## Cyflwyniad

Mae'r 5 awdurdod lleol yn nalgylch y Coleg ymhlith y rhai â'r lefel isaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Yng nghyfrifiad 2011, roedd 11% o boblogaeth Caerffili yn gallu siarad Cymraeg, 10% yn Nhorfaen, 9% yng Nghasnewydd, 8% ym Mlaenau Gwent, a 10% yn Sir Fynwy. Mae'r Coleg yn gwneud ymdrech i ddatblygu ei ddarpariaeth iaith Gymraeg yn erbyn y cefndir hwn o boblogaeth â lefelau isel o bobl sy'n siarad Cymraeg.

Ym mis Ionawr 2016, roedd tua 6% o staff Coleg Gwent yn teimlo bod ganddynt sgiliau uwch neu rugl yn y Gymraeg (mae'r ffigwr yn cynnwys staff Cymraeg i Oedolion). Gofynnir i bob aelod newydd o staff asesu ei sgiliau Cymraeg, a chynigir cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn rhad ac am ddim i'r holl staff yn ystod oriau gwaith.

Mae data o ffurflenni cofrestru ar gyfer 2016/17 yn dangos bod 353 (4.7%) o ddysgwyr yn ystyried eu bod yn siaradwyr Cymraeg a / neu wedi cael addysg cyfrwng Cymraeg. Nododd 0.4% o ddysgwyr mai Cymraeg yw'r iaith maent yn ei ffafrio ar gyfer gohebiaeth. Mae nifer y dysgwyr sy'n dod o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cael ei fesur, a bydd y nifer sy'n bwrw ymlaen â chysiau cyfrwng Cymraeg yn cael ei sefydlu fel rhan o arolwg i ymestyn ein dealltwriaeth o lefel y sgiliau iaith Gymraeg ymhlith dysgwyr.

Yn ei dogfen **iaith fyw: iaith byw – strategaeth y Gymraeg 2012 - 2017** mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi:

*“Gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru yw ein gweledigaeth. I gyflawni hynny, mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau cynnydd yn nifer y bobl sy'n gallu siarad yr iaith, ac sy'n defnyddio'r iaith. Ein chwe nod yw:*

- *annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd*
- *cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith*
- *cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned*
- *cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle*
- *gwella gwasanaethau Cymraeg ar gyfer dinasyddion*
- *cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith, gan gynnwys technoleg ddigidol.”*

Mae'r strategaeth hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd **Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg** Llywodraeth Cymru fel elfen hanfodol mewn cynhyrchu siaradwyr Cymraeg y dyfodol - ochr yn ochr ag annog defnydd o'r iaith mewn teuluoedd.

Mae Strategaeth Ddwieithog Coleg Gwent (2016-2019) yn ymateb ystyriol ac integredig sy'n nodi sut y bydd Coleg Gwent yn ymateb i'r cyfrifoldebau hyn a'r rhai a nodwyd yn *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* Llywodraeth Cymru, *Normaleiddio*

*Dwyieithrwydd: Strategaeth ar gyfer Addysg Bellach 2016-2021 Colegau Cymru a strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.*

Bydd Fframwaith Arolygu Estyn yn parhau i roi pwyslais ar ddwyieithrwydd. Mae Estyn wedi ymrwmo i'r farn y dylai dysgwyr gael yr hawl i gyfleoedd galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg yn 16 oed ac o fewn y dewisiadau a gynigir gan bartneriaethau dysgu 14-19. Bydd Estyn yn rhoi sylw manwl i gyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg 14-19 a chyfraddau dilyniant o safbwynt iaith.

Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg presennol y Coleg yn 2011 ac fe fydd yn cael ei ddisodli gan y Safonau Iaith Gymraeg newydd yn ystod 2017. Mae'r Safonau Iaith Gymraeg yn gyfres gynhwysfawr o reoliadau sy'n ymdrin â phopeth a wnawn a'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig i'r cyhoedd, â'r nod o sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r Coleg wedi ymrwmo'n llwyr i weithredu'r safonau hyn ac i roi'r flaenoriaeth uchaf i ddwyieithrwydd.

Mae Coleg Gwent yn derbyn yr her i chwarae rhan lawn a rhagweithiol yn y gwaith o gynllunio a chyflwyno addysg a hyfforddiant dwyieithog. Mae'r Coleg yn cydnabod ei fod yn gwasanaethu amrywiaeth o ardaloedd a chymunedau - sy'n wahanol o ran eu natur economaidd, ddiwylliannol ac ieithyddol ac mae'r awydd a'r penderfyniad hwn i ymateb yn gadarnhaol yn arwain at rai egwyddorion allweddol a fydd yn sail i ddatblygiadau.

## **Gweledigaeth**

Bydd Coleg Gwent yn bartneriaid llawn a rhagweithiol o ran **cynllunio a chyflwyno** system addysg a hyfforddiant ôl-14 sy'n darparu cyfleoedd priodol i ddysgwyr astudio a dysgu trwy gyfrwng eu dewis iaith, a thrwy hynny'n eu paratoi ar gyfer gwaith a bywyd mewn Cymru ddwyieithog.

Sicrhau **darpariaeth** i fodloni anghenion a dyheadau dysgwyr a chyflogwyr ar sail cyfle cyfartal ledled Cymru.

## **Nodau Strategol**

Mae Nodau Strategol y strategaeth hon wedi eu dylanwadu gan y rhai a nodir yn *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a Normaleiddio Dwyieithrwydd: Strategaeth ar gyfer Addysg Bellach 2016-2021 Colegau Cymru a strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.*

Mae'r nodau strategol fel a ganlyn:

1. Canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu darpariaeth ddwyieithog a chyfrannu at Gynlluniau Strategol Addysg Gymraeg pob awdurdod lleol y mae'r Coleg yn ei wasanaethu.
2. Cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050; gweithio ar y cyd gydag ysgolion, darparwyr eraill a chyflogwyr.

3. Cynyddu nifer y cyfleoedd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o dan Lwybrau Dysgu 14-19.
4. Parhau i ymateb a chefnogi anghenion dysgu ein dysgwyr dwyieithog.
5. Sicrhau dilyniant ieithyddol o'r cyfnod addysg statudol i ddewisiadau cwrs ôl-16 ac ôl-18 sy'n cynnal ac yn cryfhau sgiliau ieithyddol Cymru; galluogi dysgwyr i gael mynediad at y ddarpariaeth sy'n gweddu orau i'w hanghenion.
6. Recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg yn enwedig mewn meysydd blaenoriaeth galwedigaethol.
7. Darparu rhaglen o ddatblygiad staff; ymgorffori'r dimensiwn Cymreig a sgiliau iaith Gymraeg.
8. Parhau i sefydlu Cymraeg a dwyieithrwydd o fewn isadeiledd a pholisïau'r Coleg.

Bydd cyflawniad y nodau strategol hyn yn cael eu datblygu a'u monitro drwy Grŵp Llywio Iaith Gymraeg y Coleg.

## Introduction

The 5 local authorities in the College's catchment area are amongst those with the lowest level of incidence of Welsh speakers in Wales. At the 2011 census, Caerphilly had 11% of its population able to speak the Welsh language, whilst Torfaen had 10%, Newport had 9%, Blaenau Gwent had 8%, and Monmouthshire had 10%. It is against this background of low levels of Welsh speaking population that the College is striving to develop its Welsh Language provision.

In January 2016, around 6% of Coleg Gwent staff felt they had advanced or fluent skills in Welsh (figure includes Welsh for Adults staff). All new staff are asked to assess their Welsh language skills and all staff are offered Welsh for Adults courses free of charge and during work hours.

Data from enrolment forms for 2016/17 indicate 353 (4.7%) of learners consider themselves to be Welsh speakers and/or have attended Welsh medium schooling. 0.4% of learners stated their preferred language for correspondence was Welsh. The number of learners coming from Welsh medium secondary schools is measured and the number who proceed with Welsh medium courses will be established as part of a survey to extend our understanding of the level of Welsh Language skills amongst learners.

In its document **A living language: a language for living - Welsh language strategy 2012 to 2017** the Welsh Assembly Government states:

*"Our vision is to see the Welsh language thriving in Wales. To achieve that, the strategy aims to see an increase in the number of people who both speak and use the language. Our six aims are:*

- *to encourage and support the use of the Welsh language within families*
- *to increase the provision of Welsh-medium activities for children and young people and to increase their awareness of the value of the language*
- *to strengthen the position of the Welsh language in the community*
- *to increase opportunities for people to use Welsh in the workplace*
- *to improve Welsh language services to citizens*
- *to strengthen the infrastructure for the language, including digital technology."*

The strategy also emphasises the importance of the Welsh Government's **Welsh-medium Education Strategy** as an essential component in producing the Welsh speakers of the future - alongside encouraging the use of the language in families.

Coleg Gwent's Bilingual Strategy (2016-2019) is a considered and integrated response that lays out how Coleg Gwent will respond to these responsibilities and those identified in the Welsh Government's *Welsh medium Education Strategy, Colegau Cymru's Normalisation of Bilingualism: A Strategy for Further Education*

*2016-2021 and the Welsh Government draft strategy: a million Welsh speakers by 2050.*

Estyn's Inspection Framework will continue to place a focus on bilingualism. Estyn is committed to the opinion that learners should have the right to vocational opportunities through the medium of Welsh at age 16 and within the options proposed by 14-19 learning partnerships. Estyn will give detailed attention to Welsh-medium learning opportunities 14-19 and progression rates from a language point of view.

The College had its current Welsh Language Scheme approved in 2011 which is due to be replaced by the new Welsh Language Standards during 2017. The Welsh Language Standards are a comprehensive set of regulations that cover all that we do and services we offer the public, with the aim of ensuring that Welsh is treated no less favourably than English. The College is fully committed to implementing these standards and to making bilingualism a top priority.

Coleg Gwent accepts the challenge to play a full and proactive role in the planning and delivery of bilingual learning and training. The College recognises that they serve a variety of areas and communities – differing in their economic, cultural and linguistic nature and this desire and determination to respond positively leads to some key principles that will underpin developments.

## **Vision**

Coleg Gwent will be full and pro-active partners in the **planning and delivery** of a post-14 education and training system that provides appropriate opportunities for learners to study and learn through the language of their choice, thereby preparing them for work and life in a bilingual Wales.

To ensure **provision** to satisfy the needs and aspirations of learners and employers on the basis of equal opportunities across Wales.

## **Strategic Aims**

The Strategic Aims of this strategy are influenced by those identified in the Welsh Government's *Welsh medium Education Strategy and Colegau Cymru's Normalisation of Bilingualism: A Strategy for Further Education 2016-2021* and *Welsh Government draft strategy: a million Welsh speakers by 2050*.

The strategic aims are as follows:

9. To focus on the priority areas identified by the Welsh Government for developing bilingual provision and contributing to the Welsh Education Strategic Plans of each local authority that the College serves.
10. To contribute towards the Welsh Government's aim of creating a million Welsh speakers by 2050; working in collaboration with schools, other providers and employers.

11. Increase the number of learning opportunities through the medium of Welsh under the 14-19 Learning Pathways.
12. Continue to respond and support the learning requirements of our bilingual learners.
13. To secure linguistic progression from the statutory education phase into post-16 and post-18 course options that maintain and strengthen Welsh linguistic skills; enabling learners to access the provision that best suits their needs.
14. Recruit Welsh speaking staff particularly in vocational priority areas.
15. Provide a programme of staff development; embedding the Welsh dimension and Welsh Language skills.
16. Continue to embed Welsh and bilingualism within the College's infrastructure and policies.

The achievement of these strategic aims will be progressed and monitored through the College's Welsh Language Steering Group.

**Cynllun Gweithredu 2017/2018**

Cyf. Gweithredu	Gweithredu	Canlyniad DEALLUS	Amseriad	Perchennog	Blaenoriaeth	Cyf. Gweithredu Strategol Allweddol
BL1 <b>BLAENORIAETH 1</b>	<p><b><u>BLAENORIAETH 1 – Bydd pob dysgwr yn cyflawni ei botensial llawn</u></b></p> <p>Monitro canlyniadau dysgwyr dwyieithog a sicrhau y gellir cymharu'r canlyniadau â dysgwyr nad ydynt yn ddwyieithog a'u bod yn cwrdd â chymaryddion cenedlaethol</p>	Cwrdd â tharged cwblhau llwyddiannus o 91%	Awst 2018	PENNAETH GWASANAETH / RHEOLWR DWYIEITHOG	H	P1,1,2
BL2 <b>BLAENORIAETH 2</b>	<p><b><u>BLAENORIAETH 2 – Bydd pob dysgwr yn cael profiad o addysg ac asesiad rhagorol</u></b></p> <p>Darparu dilyniant ieithyddol drwy gydweithredu ag AU</p> <p>Adolygu'r dewisiadau sydd ar gael ar gyfer datblygu ac asesu sgiliau yn y Gymraeg</p> <p>Cynyddu a gwella'r ystod o adnoddau addysgu a dysgu i ddiwallu anghenion ein dysgwyr Cymraeg</p> <p>Cefnogi staff trwy Hwb a chyfleoedd hyfforddiant Annog staff i fynychu hyfforddiant Sgiliaith Sabothol a chyrsgiau CiO</p>	<p>'Siop cwricwlwm un stop'</p> <p>Dogfen ganllawiau i diwtoriaid ar gyfleoedd Asesu Cymraeg</p> <p>Cynydd o 50% mewn adnoddau addysgu a dysgu dwyieithog</p> <p>Cynydd o 15% yn nifer y staff sy'n mynychu cyfleoedd hyfforddiant Cymraeg</p>	<p>Awst 2018</p> <p>Parhaus</p> <p>Awst 2018</p> <p>Parhaus</p>	<p>RHEOLWR DWYIEITHOG / CYNLLUNIAU STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG</p> <p>RHEOLWR DWYIEITHOG</p> <p>TIWTORIAID DWYIEITHOG / CYFEILLION CYMRAEG</p> <p>RHEOLWR DWYIEITHOG</p>	<p>M</p> <p>M</p> <p>H</p> <p>M</p>	<p>P2,2,3</p> <p>P2,2</p> <p>P2,2 P3,4, P5,4</p> <p>P2,4</p>



<p>BL3 BLAENORIAETH 3</p>	<p><b><u>BLAENORIAETH 3 – Bydd pob dysgwr yn derbyn gofal a chyfarwyddyd rhagorol</u></b></p> <p>Bydd yr holl ddysgwyr Cymraeg amser llawn yn gallu cael gafael ar Diwtor Personol Cymraeg</p> <p>Cefnogi ac annog dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn / tu allan i'r ystafell ddosbarth</p> <p>Defnyddio Cynllun Cyfeillio i 'fentora' dysgwyr Cymraeg.</p> <p>Annog dysgwyr i fynychu digwyddiadau a chyfarfodydd anffurfiol Cymraeg</p> <p>Darparu cyfleoedd cyfoethogi laith Gymraeg i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd dysgwyr; cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dod o fewn Categori B1/B2 ar gyfer Math LA26 o ddysgu cyfrwng Cymraeg</p> <p>Datblygu cynllun cwricwlwm 3-blynedd ar draws pob campws gan ddefnyddio tiwtoriaid Cymraeg a chynyddu'r hyn y mae'r cwricwlwm yn ei gynnig</p> <p>Datblygu cyrsiau sy'n perthyn i gategori C1 - cyrsiau Cymraeg llawn.</p>	<p>100% o ddysgwyr Cymraeg amser llawn yn gallu cael gafael ar Diwtor Personol Cymraeg</p> <p>Cynnydd o 15% yn nifer y dysgwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg o fewn / tu allan i'r ystafell ddosbarth</p> <p>Cynnydd o 15% yn nifer y dysgwyr sy'n mynychu digwyddiadau Cymraeg</p> <p>Cynnydd o 50% mewn cyfleoedd laith Gymraeg ar gyfer cyrsiau Addysg Gynnar / Nyrsio</p> <p>Cynnydd o 30% mewn cyfleoedd dwyieithog dros y 3 blynedd nesaf</p> <p>100% cwrs Cymraeg Lefel 2 mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol 100% cwrs Cymraeg Lefel 3 Gofal Plant</p>	<p>Awst 2017</p> <p>Gorffennaf 2018</p> <p>Gorffennaf 2018</p> <p>Awst 2017</p> <p>Parhaus</p> <p>Parhaus</p>	<p>PENNAETH GWASANAETH</p> <p>CYFEILLION CYMRAEG / RHEOLWR DWYIEITHOG</p> <p>CYFEILLION CYMRAEG / RHEOLWR DWYIEITHOG</p> <p>PENNAETH GWASANAETH / RHEOLWR DWYIEITHOG</p> <p>CYFARWYDDWYR CAMPWS / PENNAETH GWASANAETH / RHEOLWR DWYIEITHOG</p> <p>PENNAETH GWASANAETH / RHEOLWR DWYIEITHOG</p>	<p>H</p> <p>H</p> <p>M</p> <p>M</p> <p>H</p> <p>H</p> <p>H</p>	<p>P3,2</p> <p>P3,4</p> <p>P3,5</p> <p>P3,5</p> <p>P3,4</p> <p>P3,4</p>
-----------------------------------	--	--	---	--	--	---

<p>BL4 <b>BLAENORIAETH 4</b></p>	<p><b>BLAENORIAETH 4 – Arweinyddiaeth a llywodraethu rhagorol ar bob lefel</b></p> <p>Annog recriwtio tiwtoriaid sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig mewn meysydd blaenoriaeth</p> <p>Monitro amcanion Polisi Dwyieithog Coleg Gwent i ymateb yn effeithiol i amcanion craidd y Strategaeth Normaleiddio Dwyieithrwydd ar gyfer Addysg Bellach</p> <p>Recriwtio 8 cyfaill Cymraeg i gefnogi a datblygu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg / dwyieithog</p> <p>Anelu at gyflawni 'Rhogorol' yn Arolygiad nesaf Estyn</p>	<p>Cynnydd o 5% mewn recriwtio tiwtoriaid dwyieithog</p> <p>Cwrdd ag amcanion craidd y Strategaeth ar gyfer Addysg Bellach</p> <p>Cynnydd o 15% yn nifer y dysgwyr sy'n mynychu digwyddiadau Cymraeg</p> <p>Barn ragorol yn yr arolygiad nesaf</p>	<p>Parhaus</p> <p>Parhaus</p> <p>Parhaus</p> <p>Parhaus</p>	<p>PENNAETH GWASANAETH / RHEOLWR DWYIEITHOG</p> <p>RHEOLWR DWYIEITHOG / PENNAETH ADRAN</p> <p>RHEOLWR DWYIEITHOG / PENNAETH ADRAN</p> <p>RHEOLWR DWYIEITHOG / PENNAETH ADRAN / PENNAETH GWASANAETH</p>	<p>H</p> <p>M</p> <p>H</p> <p>H</p>	<p>P4,3</p> <p>P4,1</p> <p>P4,3</p> <p>P4,1</p>
<p>BL5 <b>BLAENORIAETH 5</b></p>	<p><b>BLAENORIAETH 5 – Dyfodol cynaliadwy</b></p> <p>Parhau i ymgysylltu ag Ysgolion Cyfrwng Cymraeg ac annog pobl i fynychu digwyddiadau blasu</p> <p>Parhau i fynychu digwyddiadau rhwydweithio ac arwain ymgysylltiad gyda phartneriaid allanol - Menter Iaith, Urdd;</p>	<p>Cynnydd o 10% yn nifer y dysgwyr ysgol Cyfrwng Cymraeg sy'n mynychu digwyddiadau blasu</p> <p>Cyfleoedd ar gyfer hyrwyddo manteision a rhannu arferion gorau</p>	<p>Parhaus</p> <p>Parhaus</p>	<p>RHEOLWR DWYIEITHOG</p> <p>RHEOLWR DWYIEITHOG</p>	<p>H</p> <p>M</p>	<p>P5,3</p> <p>P5,3</p>

	hyrwyddo manteision a rhannu arferion gorau dysgu dwyieithog  Cynyddu nifer yr adnoddau dwyieithog sydd ar gael	10% o'r neilltu i diwtoriaid dwyieithog greu banc o adnoddau	AWST 17	TIWTORIAID DWYIEITHOG	H	P5,4
--	---	--	---------	--------------------------	---	------

## Action Plan 2017/2018

Action Ref.	Action	SMART Outcome	Timing	Owner	Priority	Key Strategic Action Ref.
BL1 <b>PRIORITY 1</b>	<b><u>PRIORITY 1 – Every learner will achieve their full potential</u></b>  Monitor outcomes of bi-lingual learners and ensure outcomes are comparable with non-bilingual learners and meet national comparators	Meet successful completion target of 91%	August 2018	HOS/BILINGUAL MGR	H	P1,1,2
BL2 <b>PRIORITY 2</b>	<b><u>PRIORITY 2 – Every learner will experience excellent teaching and assessment</u></b>  Provide linguistic progression through collaboration with HE  Review options available for developing and assessing skills in Welsh  Increase and improve the range of teaching and learning resources to meet the needs of our Welsh learners  Support staff through Hwb and training opportunities Encourage staff to attend Sabbatical, Sgiliaith training and WfA courses	'One stop curriculum shop'  Guidance document for tutors on Welsh Assessment opportunities  50% increase in bilingual teaching & learning resources  15% increase in number of staff attending Welsh training opportunities	August 2018  Ongoing  August 2018  Ongoing	BILINGUAL MGR/WESP  BILINGUAL MGR  BILINGUAL TUTORS/WELSH BUDDIES  BILINGUAL MGR	M  M  H  M	P2,2,3  P2,2  P2,2 P3,4, P5,4  P2,4
BL3 <b>PRIORITY 3</b>	<b><u>PRIORITY 3 – Every learner will receive excellent, care and guidance</u></b>  All full-time Welsh learners to have access to a Welsh Personal Tutor  Support and encourage learners to use Welsh in/out of the classroom	100% full-time Welsh learners to have access to a Welsh Personal Tutor  15% increase in number of learners using Welsh in/out of classroom	August 2017  July 2018	HOS  WELSH BUDDIES/BILINGUAL MGR	H  H	P3,2  P3,4

	<p>Utilise Welsh Buddies to 'mentor' Welsh learners.</p> <p>Encourage learners to attend Welsh events and informal meetings</p> <p>Provide Welsh Language enrichment opportunities to develop learner's employability skills; increasing number of learners who fall within B1/B2 Category for LA26 Type of Welsh medium learning</p> <p>Develop 3-year curriculum plan across all campuses utilising Welsh tutors and increasing curriculum offer</p> <p>Develop courses that fall into C1 category – full Welsh courses.</p>	<p>15% increase in number of learners attending Welsh events</p> <p>50% increase in Welsh Language opportunities for Early Learning/Nursing courses</p> <p>30% increase in bilingual opportunities over next 3 years</p> <p>100% Welsh course Level 2 in Health &amp; Social Care 100% Welsh course Level 3 Childcare</p>	<p>July 2018</p> <p>August 2017</p> <p>Ongoing</p> <p>Ongoing</p>	<p>WELSH BUDDIES/BILINGUAL MGR</p> <p>HOS/BILINGUAL MGR</p> <p>CAMPUS DIRECTORS/HOS/BILINGUAL MGR</p> <p>HOS/BILINGUAL MGR</p>	<p>M</p> <p>M</p> <p>H</p> <p>H</p> <p>H</p>	<p>P3,5</p> <p>P3,5</p> <p>P3,4</p> <p>P3,4</p>
<p>BL4 PRIORITY 4</p>	<p><b>PRIORITY 4 – Excellent leadership and governance at all levels</b></p> <p>Encourage recruitment of Welsh speaking tutors, particularly in priority areas</p> <p>Monitor the objectives of the Coleg Gwent Bilingual Policy to effectively respond to the core objectives of the Normalisation of Bilingualism Strategy for FE</p> <p>Recruit 8 Welsh buddies to support &amp; develop Welsh medium/bilingual opportunities</p> <p>Aim to achieve 'Excellent' in next Estyn Inspection</p>	<p>5% increase in recruitment of bi-lingual tutors</p> <p>Meet the core objectives of the Strategy for FE</p> <p>15% increase in number of learners attending Welsh events</p> <p>Excellent judgement in next inspection</p>	<p>Ongoing</p> <p>Ongoing</p> <p>Ongoing</p> <p>Ongoing</p>	<p>HOS/BILINGUAL MGR</p> <p>BILINGUAL MGR/HOD</p> <p>BILINGUAL MGR/HOD</p> <p>BILINGUAL MGR/HOD/HOS</p>	<p>H</p> <p>M</p> <p>H</p> <p>H</p>	<p>P4,3</p> <p>P4,1</p> <p>P4,3</p> <p>P4,1</p>
<p>BL5 PRIORITY 5</p>	<p><b>PRIORITY 5 – Sustainable future</b></p> <p>Continue to engage with Welsh Medium Schools and encourage attendance of taster events</p>	<p>10% increase in number of Welsh Medium school learners attending taster events</p>	<p>Ongoing</p>	<p>BILINGUAL MGR</p>	<p>H</p>	<p>P5,3</p>

	<p>Continue to attend networking events and lead engagement with external partners – Menter Iaith, Urdd; promoting the benefits and sharing best practice of bi-lingual learning</p> <p>Increase the number of bilingual resources available</p>	<p>Opportunities for promoting benefits and sharing best practice</p> <p>10% remission for bilingual tutors to create bank of resources</p>	<p>Ongoing</p> <p>AUGUST 17</p>	<p>BILINGUAL MGR</p> <p>BILINGUAL TUTORS</p>	<p>M</p> <p>H</p>	<p>P5,3</p> <p>P5,4</p>
--	--	---	---------------------------------	--	-------------------	-------------------------